

Magu cysylltiadau yn y gymuned

***“Ble bynnag ewch chi, i dref neu bentref, edrychwch am rywun sy'n barod i'ch croesawu, ac aros yng nghartref y person hwnnw nes byddwch yn gadael yr ardal.”
Mathew 10:11 (beibl.net)***

Mae'r daflen hon yn amlinellu sut y gallwch fynd ati i drafod prif themâu'r fideo yn ddyfnach. Gallwch addasu'r amseru yn ôl yr angen.

Cwestiwn allweddol: Sut mae bod yn agored wrth i Dduw ein harwain at bobl benodol ac yn fwriadol wrth adeiladu perthynas â nhw

Amcan: Dangos pwysigrwydd efengylu o fewn perthynas â'r unigolion sydd o'n cwmpas.

Trafodaeth Agoriadol (3 munud)

Pwy aeth ati'n bwrpasol i'ch arwain chi i'r Arglwydd? Sut wnaethon nhw hynny?

Er mwyn rhoi cyfle i bawb, awgrymw'n eich bod yn rhannu i grwpiau bach o dri neu bedwar i drafod.

Gwyllo fideo criw Gomer, Abertawe (tua 15 munud)

Cwestiynau Trafod/ Pwyntiau Gweithredu (15 munud)

Dyma rai awgrymiadau, peidiwch â themlo rheidrwydd i fynd trwyddynt i gyd!

Darllenwch Mathew 10:1-16

1. Ble yn y darlenniad ydyn ni'n gweld Iesu yn dweud wrth y disgyblion i fod yn bwrpasol?
2. Ble yn y darlenniad ydyn ni'n gweld Iesu yn dweud wrth y disgyblion i fod yn agored?
3. Beth mae'n ei olygu i fod 'yn graff fel nadroedd ond yn ddiniwed fel colomennod'?
4. Sut allwch chi fod yn bwrpasol ac yn agored wrth greu perthnasoedd yn eich teuluoedd, grŵp o ffrindiau, lle gwaith neu'ch cymuned chi?
5. Gyda phwy ydych chi'n creu perthynas bwrpasol ar hyn o bryd? Â phwy y gallwch chi fod yn creu perthynas bwrpasol?

Magu cysylltiadau yn y gymuned

Cyfnod o Weddi (12 munud)

Efallai gallwch chi rannu'n grwpiau bach unwaith eto i weddio. Bydd yn dda gweddio am yr hyn sydd wedi annog neu herio aelodau'r grŵp; a dyma bwyntiau penodol ar gyfer y sesiwn hon:

- Nodwch yr enwau sydd wedi eu henwi yn y drafodaeth, a gweddiwch drostyn nhw gyda'ch gilydd.
- Gweddiwch ar i Dduw eich nerthu i ymroi i fagu cysylltiadau effeithiol ac i annog ein gilydd yn hyn gan mai menter gymunedol i'r eglwys yw hon.
- Diolchwch am y bobl wnaeth yr ymdrech i feithrin perthynas â chi.

Myfyrdod Beiblaidd (10 munud)

Dyma fyfyrdod ychwanegol o'r Beibl i ystyried y brif thema ymhellach. Gallwch ei ddefnyddio'n rhan o'r sesiwn hyfforddi, neu ddosbarthu'r nodiadau fel myfyrdod personol yn ystod yr wythnos

1 Thesalonïaid 1

1. Beth ydyn ni'n ei ddysgu am berthynas Paul, Silas a Timotheus â'r Cristnogion yn Thesalonica? Beth wnaeth Paul a'i dîm tra yr oedd yn eu plith? Beth, yn ogystal â siarad, wnaethon nhw?
2. Beth yw cymhelliant Paul a'r tîm yn ôl diwedd adnod 5? Sut allwn ni wneud yn siŵr ein bod ni'n adeiladu perthnasau er lles eraill ac nid er mwyn ein balchder ni?
3. Mae adnod 6 yn ein hatgoffa ni mae'r Ysbryd sydd yn achosi pobl i dderbyn y neges. Sut allwn ni wneud yn siŵr ein bod ni'n dibynnu ar Dduw ac nid ar ein sgiliau cyfathrebu neu berswâd? Pa anogaeth sy'n dod o hyn?
4. Fel yn achos Thesalonica, ydych chi'n edrych ymlaen at weld y rheiny rydych chi'n eu cyrraedd â'r newyddion da yn rhannu'r newyddion da ei hun?

I gloi

Gobeithio i chi gael bendith ac anogaeth o'r sesiwn. Tybed beth wnaeth eich taro fwyaf o'r hyn a glywsoch? Beth am gymryd amser i ddiolch i Dduw am hynny, a nodi unrhyw bwyntiau penodol i weithredu arnynt fel na fyddwn yn anghofio!